| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Hydref 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd A James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | E Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | K Brußk, Uwch Swyddog Cynllunio |
| **Teitl** | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2024 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2024 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) 2006 - 2021, gweler Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi copi o Adroddiad Monitro Blynyddol 2024 i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan CSDd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys AMB 2024.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion y CDLl, effeithiolrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae'r adroddiad diweddaraf yn

trafod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, a dyma'r degfed rhifyn ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013.

4.2. Mae'n ddyletswydd ar GSDd i gynhyrchu AMB ar gyfer eu CDLl priodol o dan rwymedigaethau Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) ac Adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n rhaid i'r AMB gael ei gyflwyno i LlC erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac mae'n rhaid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.3. Mabwysiadwyd CDLl CSDd 2006 - 2021 ar 4 Mehefin 2013. Er eu bod ymhell tu hwnt i'r cyfnod cynllunio, fe eglurodd Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn llythyr i Awdurdodau Cynllunio Lleol, "Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes bydd CDLl pellach yn eu disodli." Mae Atodiad 1 CDLl CSDd, AMB 2021, yn cynnwys llythyr llawn y Gweinidog.

4.4. Mae fframweithiau monitro yn rhan gynhenid o'r Cynllun Datblygu Lleol ac felly'n amodol ar archwilio yn ystod y cyfnod o baratoi'r cynllun. Dim ond yn rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol mae elfennau unigol, er enghraifft, dangosyddion neu sbardunau adolygu yn gallu cael eu haddasu. Ers y monitro, dim ond drwy gwblhau adolygiad o'r cynllun y gellir diwygio'r fframwaith.

4.5. Dylid nodi bod Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych wedi cael ei fabwysiadu cyn cyhoeddi "Llyfryn Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3" Llywodraeth Cymru, sy'n golygu nad yw'n cynnwys yr holl elfennau sydd angen eu monitro erbyn hyn. Cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd mae data fel y taflwybr tai yn cael ei ddarparu fel gwybodaeth yn unig.

4.6. Mae effaith y polisi cenedlaethol ar wneud penderfyniadau yn lleol yn cael ei fonitro ac fe adroddir yn ôl arno fel y nodir yn "Argraffiad 3 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu" LlC (2020). Er yn hanfodol wrth benderfynu ar y ceisiadau cynllunio, nid yw newidiadau polisi cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith monitro CDLl. Gan mai dim ond drwy gwblhau'r adolygiad o'r cynllun y gellir diwygio'r fframwaith monitro, mae Cyngor Sir Ddinbych yn dal i fonitro

darpariaeth tai, darpariaeth tir cyflogaeth ac ati, a pherfformiad polisi lleol yn erbyn fframwaith oedd yn berthnasol yn 2013.

4.7. Mae yna dri phrif faes pwnc sydd angen sylw penodol wrth baratoi'r CDLl newydd, fel y pwysleisir mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac Adroddiad Adolygu CDLl (2017):

- Mae'n rhaid i dargedau darparu tai blynyddol gyd-fynd ag amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig LlC;
- Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr; ac Adfywio Canol Trefi, yn arbennig canolbwyntio ar y dirywiad mewn canolfannau manwerthu 'brics a morter' ar y 'Stryd Fawr'.

4.8. Mae AMB CSDd 2024 wrthi'n cael ei gyfieithu a'i baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan CSDd.

4.9. Os oes gan Aelodau unrhyw ymholiad neu os hoffent drafod elfennau unigol o AMB 2024, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol / CDLl drwy ffonio: 01824 706916 neu drwy anfon e-bost at planningpolicy@denbighshire.gov.uk.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Eitem er gwybodaeth ydyw.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd nodi cynnwys AMB 2024 yn arwain at unrhyw gostau nac effeithiau i wasanaethau eraill.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, gweithdrefn waith na rhaglen y Cyngor. Gofynnir i Aelodau nodi'r cynnwys yn unig. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddogfen ystadegol sy'n adlewyrchu perfformiad polisi lleol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd AMB 2024 i Aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol ar 12 Medi 2024. Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad. Mae canlyniadau monitro yn mynd i lywio trafodaethau yn y dyfodol ar feysydd pwnc unigol, er enghraifft, twf tai tra'n paratoi'r CDLl newydd. Rhannwyd nodiadau'r cyfarfod a'r cyflwyniad gyda'r Cynghorwyr.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Adroddiad er gwybodaeth ydyw.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â nodi cynnwys AMB 2024.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Amlinellir y ddyletswydd statudol i gynhyrchu AMB yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 76 ac Adran 37 yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Amlinellir y ddyletswydd statudol i gynhyrchu AMB yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 76 ac Adran 37 yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.